Rheolaeth

MEDDYLIWCH AMDANI

Rhifyn 13 MEDI 2005

Bydd Cyngor Rheolaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru a thu hwnt i hybu gwell perfformiad o ran rheoli ar bob lefel yn yr economi.

Fel rhan o'r dasg honno, rydym yn annog rheolwyr fel chi i ystyried sut gallan nhw ehangu eu galluoedd eu hunain a gwella yn eu gwaith.

Nod y daflen grynodeb yma, a fydd yn cael ei chyhoeddi bob mis, yw'ch helpu chi i ganolbwyntio yn fwy eglur ar yr heriau ymarferol sy'n eich wynebu.

Nid ydym yn honni bod yr holl atebion gennym, ond rydym yn gobeithio y bydd y cwestiynau yma'n ysgogi ystyriaeth a fydd yn ddefnyddiol i chi. Os ydych chi am roi'ch barn ar unrhyw rai o'r materion sy'n cael eu codi, cysylltwch â ni.

gwyneth.stroud
@crc-wmc.org.uk

O Gwmpas Eich Pethau ai Peidio?

Gwnaeth y seren pêl-droed anfarwol Pele sylw unwaith bod pob chwaraewr da yn gwybod lle mae'r bêl ar unrhyw adeg benodol, ond bod chwaraewr grêt yn gwybod lle mae'r bêl yn mynd i fod.

Fel rheolwr, a ydych chi'n deall pa wobrau sy'n golygu fwyaf i ba bobl yn eich tîm? A yw'n realistig gweithredu system o wobrau wedi'u llunio'n benodol heb achosi dicter ymhlith eraill?

Tewach na Dwr?

Mae arolwg newydd Menter Cymru wedi darganfod y byddai'n well gan fwy na dwy ran o dair o entrepreneuriaid Cymreig ddechrau ar fenter gyda ffrindiau na chydag aelodau'r teulu.

Ydych chi o'r farn fod clymau teuluoedd yn sail i gwmni sefydlog ynteu a all perthnasau o'r fath rwystro busnes da? Ddylech chi ddewis eich partner busnes am resymau proffesiynol yn unig bob amser, gan anwybyddu teulu neu ffrindiau yn gyfan gwbl?

Delio â "Choed Marw"

Dywedodd dri chwarter o reolwyr y DU, a mwy nag wyth allan o ddeg staff wrth arolwg diweddar Buddsoddwyr mewn Pobl bod ganddyn nhw gydweithwyr nad oedden nhw'n dwyn eu rhan o'r baich.

Fel rheolwr, ydych chi'n cael eich hun weithiau'n gorlwytho staff sy'n gweithio'n galed i osgoi cael eich siomi gan aelodau diog neu annibynadwy o'r tîm? Allech chi fod mewn perygl o golli'ch chwaraewyr gorau a chael ond tanberfformwyr ar ôl?

Cydnabod Gwir Arweinyddiaeth

Yn ôl erthygl ddiweddar yn Harvard Review, arweinwyr sydd bron yn boenus o ostyngedig fydd yn aml yn gallu lansio cwmni o fod dim mwy na da i fod yn grêt. Yn aml, nhw sy'n hynod benderfynol a di-ofn.

Pan fyddwch chi'n bwriadu rhoi dyrchafiad i bobl yn eich sefydliad chi, tybed a fyddwch chi'n anwybyddu pobl sydd â diffyg carisma arweinyddiaeth amlwg pan allen nhw, mewn gwirionedd, gyflawni'n dawel yr hyn y gallai eu cydweithwyr uchel eu cloch fethu â'i gyflawni?

Y gwir ystyr

Pan ddadleuodd y Seicolegydd Martin H Fischer mai "Proses pentyrru ffeithiau yw gwybodaeth, tra'u symleiddio yw doethineb," roedd yn adleisio honiad enwog Leonardo Da Vinci mai "symlrwydd yw'r soffistigeiddrwydd eithaf".

Fel rheolwr, faint o wybodaeth fyddwch chi'n ei storio yn eich pen a faint ohoni allech chi ei symleiddio a'i defnyddio yn eich busnes? Fyddwch chi weithiau'n drysu eich hunan ac eraill â chymhlethdod pan mai symlrwydd fyddai'r llwybr doethaf?

Gwefannau Rheolaeth

Mae tri llyfr, sef "The Ultimate guide to Successful Networking" gan Carole Stone (Vermillion), "Brilliant Business Connections" gan Frances Kay (Llyfrau How To) a "Personal Networking" gan Mick Cope (FT Prentice Hall) oll yn cysylltu thema a gafodd le tra amlwg yn nogfen Cyngor Rheolaeth Cymru o'r enw "Agenda ar gyfer Twf", sef pwysigrwydd rhwydweithio. Canllaw ymarferol yw llyfr Stone sy'n ateb llawer o gwestiynau pitw yngl n â rhwydweithio; mae llyfr Kay yn fwy addas i'r rheiny â thueddfryd academaidd; ac mae un Cope ychydig yn rhy ddifrifol. Ond mae'n werth chweil edrych ar bob un ohonyn nhw.

Cyngor Rheolaeth Cymru
Wales Management Council

Tywys Cymru Tuag At Ragoriaeth ym maes Rheolaeth